Eisteddfod Bro Llandegfan
Dydd Sadwrn Gorffennaf 1af 2023.

Cynhaliwyd ein Eisteddfod gyntaf ers 2019 yn Neuadd y Plwyf yn ôl ein harfer ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf. Roedd hon yn llai o eisteddfod nag arfer – tamaid i aros pryd fel petai er mwyn aildanio diddordeb a braenaru'r tir ar gyfer y flwyddyn nesaf pan fydd ein eisteddfod yn ganmlwydd oed. D'oedd dim cystadleuaeth am y Goron (gyflwynwyd er cof am Margaret Ungoed Hughes) flwyddyn yma ond dangoswyd hi ar y llwyfan a gellir ei gweld ar gadair eisteddfod 1924 mewn ambell i lun. Bydd cyfle i ymgeisio am ei gwisgo flwyddyn nesaf ac ennill un fechan o'r un patrwm.

Roedd bwrlwm a phrysurdeb drwy'r bore tra roedd y plant lleiaf wrthi'n cystadlu. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Pwyllgor – Meleri Evans ac roedd yn braf gweld brwdfrydedd ymysg rhieni – llawer yn Ddi-gymraeg. Diolch i Greta Stuart am gydlynnu'r gwaith yn yr ysgol ac arweiniwyd y cystadlu oedran cynradd gan y Pennaeth, Mr Dewi Hood gyda Non Gwyn Jones, Rhian Medi, Gary Pritchard a Sian Arwel yn dilyn ar gyfer y cystladaethau i'r oedrannau hŷn. 'Roedd yr Ysgrifenyddion, Ann Coleman, Helen Davies ac Angela Ungoed Hughes yn brysur yn cofnodi a pharatoi lluniaeth ar gyfer y beirniaid – Sian Wheway ac Esyllt Tudur Adair, cyfeilyddion – Ann Peters Jones ac Olwen Jones a'r cystadleuwyr - plant o'r ysgol a rhai wedi teithio o'r Ynys, Llŷn a Meirionydd, tra 'roedd Edward Morus Jones yn gofalu am yr arian! Diolch i Gwenno Llywelyn am roi'r canlyniadau ar y wê. Diolch iEurfryn am roi'r arwyddion i fyny ac i'r rhai fu'n stiwardio, gweini'r bwyd ac yn y siop. Ymlaen rwan gyda'r trefniadau ar gyfer Eisteddfod y Dathlu yn 2024!

1. Unawd Oed Meithrin a Derbyn: Hunanddewisiad(1)
    1. Enlli Parry (Ysgol Llandegfan)
    2. William Jones (Ysgol Llandegfan)
    3. Ioan Harper (Ysgol Llandegfan) a Math (Llynfaes) - cydradd drydydd

2. Llefaru unigol Oed Meithrin a Derbyn : Hunanddewisiau.(20)
    1. Math (Llynfaes)
    2. Enlli Parry (Ysgol Llandegfan) a William Jones (Ysgol Llandegfan)- cydradd ail
    3. Ioan Harper (Ysgol Llandegfan)

3. Unawd Blwyddyn 1 a 2: Hunanddewisiad(2)
    1. Gwydion Jones (Llynfaes)
    2. Wil Ifan (Trawsfynydd)
    3. Dafydd Huw (Bodffordd)
    4. Gwenno Meleri (Llanrug)

4. Llefaru unigol Blwyddyn 1 a 2 : Hunanddewisiad.(21)
    1. Gwydion Jones (Llynfaes)
    2. Gwenno Meleri (Llanrug)
    3. Wil Ifan (Trawsfynydd) a Dafydd Huw (Bodffordd) - cydradd drydydd

5. Unawd Blwyddyn 3 i 6 : Hunanddewisiad.(3)
    1. Mili Roberts (Gaerwen)
    2. Frankie Jones (Ysgol Llandegfan)

6. Llefaru unigol Blwyddyn 3 i 6:Hunanddewisiad.(22)
    1. Frankie Jones (Ysgol Llandegfan)
    2. Cai Parry (Ysgol Llandegfan)
    3. Lois Harper (Ysgol Llandegfan)

7. Unawd Offerynnol Bl 6 ac Iau: Hunanddewisiad.(10)
    1. Imogen May (Ysgol Llandegfan)
    2. Mabli Evans (Ysgol Llandegfan)
    3. Alex Latchford (Ysgol Llandegfan)
    4. Gemma Gwenin (Ysgol Llandegfan)

8. Unawd Cerdd Dant neu Alaw Werin Bl 6 ac iau: Hunanddewisiad (15)
    1. Wil Ifan (Trawsfynydd)

9. Unawd dan 16 oed: Hunanddewisiad (4)
    1. Cadi Fflur Midwood (Morfa Nefyn)
    2. Owain Bishop (Llanfairpwll)
    3. Llio Iorwerth (Trawsfynydd) a Non Prys (Porthaethwy)– cydradd drydydd

10. Llefaru unigol dan 16oed: Hunanddewisiad.(23)
    1. Lea Mererid Roberts (Pwllheli)
    2. Ifan Alun (Morfa Nefyn)
    3. Cadi Fflur Midwood (Morfa Nefyn)

11. Unawd Offerynnol dan 16oed: Huanaddewisiad (11)
    1. Lea Mererid Roberts (Pwllheli)
    2. Mari Prys (Porthaethwy)

12. Unawd Cerdd Dant neu Alaw Werin dan 16 oed: Hunanddewisiad.(16)
    1. Cadi Fflur Midwood (Morfa Nefyn)
    2. Non Prys (Porthaethwy)
    3. Llio Iorwerth (Trawsfynydd)

13. Unawd dan 19 oed: hunanddewisiad (5)
    1. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)
    2. Beca Morris (Bethel)

14. Llefaru dan 19oed: Hunanddewisiad (24)
    1. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)

15. Unawd Offerynnol dan 19 oed; hunanddewisiad (12)
    1. Lea Mererid Roberts (Pwllheli)

16. Unawd Cerdd Dant neu Alaw werin dan 19 oed: hunanddewisiad (17)
    1. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)

17. Ensemble Lleisiol, Oedran Agored: Hunanddewisiad (9)
    1. Deuawd : Cadi Fflur Midwood ac Ifan Alun (Morfa Nefyn)

18. Canu Emyn, Oedran Agored: Hunanddewisiad (8)
    1. Raymond Jones (Engedi)
    2. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)
    3. Rhiannon Davies (Porthaethwy)

19. Unawd Offerynnol dan 25 oed: Hunanddewisiad (13)
    1. Lea Mererid Roberts (Pwllheli)

20. Llefaru dan 25 oed; Hunanddewisiad (25)
    Dim Cystadleuwyr

21. Unawd dan 25 oed; Hunanddewisiad (6)
    1. Beca Morris (Bethel)
    2. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)

22. Unawd Cerdd Dant neu Alaw Werin dan 25 oed; Hunanddewisiaid (18)
    1. Elain Rhys Iorwerth (Trawsfynydd)

23. Unawd Offerynnol Agored i rai 19 oed a throsodd: Hunanddewisiad (14)
    Dim Cystadleuwyr

24. Monolog Agored i rai 19 oed a throsodd: Hunanddewisiad (26)
    Dim Cystadleuwyr

25. Unawd Cerdd Dant /Alaw Werin i rai 19 oed a throsodd ;Hunanddewisiad (19)
    Dim Cystadleuwyr

26. Unawd Agored i rai 19 oed a throsodd: Hunanddewisiad (7)
    1. Carys Eleri (Llandegfan)
    2. Emyr Jones (Gwalchmai)

(Y rhif yn y cromfachau ydy rhif y gystadleuaeth ar y Rhestr Testunau)